OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1229 (Cy. 217)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Tachwedd 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *21 Tachwedd 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2023 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2024.

### Diwygiad i Reoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nosbarth 1 o'r Atodlen i Reoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000(**2**) (dosbarthiadau o beiriannau a pheirianwaith y tybir eu bod yn rhan o'r hereditament)—

(a) yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl "heblaw peiriannau a pheirianwaith a eithrir" mewnosoder "neu, mewn perthynas ag unrhyw ddiwrnod ar neu ar ôl 1 Ebrill 2024 a chyn 1 Ebrill 2035, beiriannau a pheirianwaith ynni adnewyddadwy a eithrir neu beiriannau a pheirianwaith mannau gwefru cerbydau trydan a eithrir";

(b) ar ôl paragraff (ch) mewnosoder—

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd paragraff 2(8) o Atodlen 6 gan baragraff 38(8) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42). Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2000/1097 (Cy. 75), a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/2357 (Cy. 195); mae un offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"(d) ystyr "peiriannau a pheirianwaith ynni adnewyddadwy a eithrir" yw peiriannau a pheirianwaith a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu, storio, newid neu drosglwyddo pŵer pan mai'r ffynonellau ynni neu'r technolegau y dibynnir arnynt yw'r canlynol, yn bennaf neu yn unig—

(i) biomas;

(ii) biodanwyddau;

(iii) bionwy;

(iv) celloedd tanwydd;

(v) ffotofoltegion;

(vi) dŵr (gan gynnwys tonnau a llanwau);

(vii) gwynt;

(viii) pŵer solar;

(ix) ffynonellau ynni neu dechnolegau geothermol;

(x) gwres o'r aer, o ddŵr neu o'r ddaear;

(dd) ystyr "peiriannau a pheirianwaith mannau gwefru cerbydau trydan a eithrir" yw peiriannau a pheirianwaith—

(i) a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio yn bennaf neu yn unig ar gyfer storio, newid neu drosglwyddo pŵer ar gyfer man gwefru cerbydau trydan (o fewn ystyr adran 45EA(5) o Ddeddf Lwfansau Cyfalaf 2001(**3**)), a

(ii) sydd o fewn pennawd (ch) neu (d) o Dabl 1 isod."

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

20 Tachwedd 2023

(**3**) 2001 p. 2. Mewnosodwyd adran 45EA gan adran 38(3) o Ddeddf Cyllid (Rhif 2) 2017 (p. 32). Diwygiwyd adran 45EA gan adran 9 o Ddeddf Cyllid (Rhif 2) 2023 (p. 30)

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000").

Mae Rheoliadau 2000 yn rhagnodi tybiaethau am beiriannau a pheirianwaith ar hereditament, neu mewn hereditament, at ddibenion prisio ar gyfer ardrethu.

Mae'r Atodlen i Reoliadau 2000 yn rhagnodi'r dosbarthau ar beiriannau a pheirianwaith y tybir eu bod yn rhan o hereditament at ddibenion prisio ar gyfer ardrethu, gydag eithriadau ar gyfer dosbarthau rhagnodedig penodol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Dosbarth 1 yn yr Atodlen i Reoliadau 2000 er mwyn mewnosod dau eithriad pellach mewn cysylltiad â pheiriannau a pheirianwaith ynni adnewyddadwy a mannau gwefru cerbydau trydan. Mae'r eithriadau hyn yn gymwys mewn perthynas â diwrnodau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2024 a chyn 1 Ebrill 2035.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.